## GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG

**208 - Rheoliadau Bwyd a Diod (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2020**
*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 26 Tachwedd 2020*

| | |
|---|---|
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Do |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 10 Rhagfyr 2020 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Gweithdrefn | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**
Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**
Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud mân newidiadau technegol i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir, mewn perthynas â gwin a gwybodaeth am fwyd. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod y rheolau priodol yn ymwneud â symud a rheoli cynhyrchion gwin, o safbwynt cyfundrefn a thollau, yn parhau ar ôl i’r DU ymadael â’r UE.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 2 Rhagfyr 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

Mewn perthynas â'r newidiadau i Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2018/273 a wnaed drwy'r Rheoliadau hyn, mae datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi bod y newidiadau hynny yn:

> "sicrhau bod y darpariaethau sy'n ymwneud â masnachu gwin, monitro cynhyrchiant a chadw cofnodion yn gweithio'n gywir ar ôl y dyddiad gweithredu ac y cânt eu hailddyrannu'n briodol gan ystyried y newid o fod yn aelodwladwriaeth i fod yn wlad ar wahân".

Ymddengys bod y newidiadau y mae'r Rheoliadau'n eu gwneud yn ymwneud ag eithriadau i'r broses o ardystio mewnforion gwin mewn perthynas â chyflenwadau bach o win y bydd unigolion preifat yn eu hanfon at unigolion preifat eraill, a gwin a sudd grawnwin ar gyfer ffeiriau masnach. Ar yr olwg gyntaf, nid yw'n glir sut mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â monitro cynhyrchiant neu gadw cofnodion, nac ystyr "ailddyrannu" yng nghyd-destun y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.